# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

## yng

**Nghyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NB**

**Hydref 2011**

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

## Cyd-destun

Mae Sir y Fflint yng ngogledd ddwyrain Cymru ac mae ganddi boblogaeth o 149,923.

O'r boblogaeth weithio yn Sir y Fflint, nid oes gan 8.6% unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 13.7%. Y gyfradd gyflogaeth yn y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2010 yn Sir y Fflint oedd 71.8%, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.4%. Roedd 11.5% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011 yw 14.7%, sy'n is na 19.4% yn genedlaethol. Y lefel hon o gymhwyster yw'r chweched isaf yng Nghymru (CYBLD 2011). Mae pedair ardal yn Sir y Fflint yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 0.8% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%. Dywed ychydig llai na thraean o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 25.6%.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd 160 o blant yn cael gofal gan yr awdurdod yn Sir y Fflint. Roedd 105 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

## Cyd-destun ariannol

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir y Fflint yn 2011-2012 oedd £1,609 i bob pen o'r boblogaeth. Mae AGS y Cyngor i bob pen o'r boblogaeth wedi bod yn un o'r isaf yng Nghymru yn gyson yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2011-2012, gosododd yr awdurdod ei gyllideb addysg, heb grantiau, ar £105.1 miliwn. Roedd hyn ychydig yn is na'r gydran addysg yn yr AGS, ac mae'n cynrychioli £4,581 fesul disgybl. Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef £4,770 fesul disgybl. Roedd cyllideb addysg net yr awdurdod ar gyfer 2011-2012 fymryn yn is nag yr oedd ar gyfer 2010-2011.

Mae'r awdurdod yn rhoi blaenoriaeth uchel i wariant ar ysgolion yn ei gyllideb addysg. Mae cyfanswm y gwariant cyllidebol yn cynrychioli £4,773 fesul disgybl, ffigur sy'n agos at gyfartaledd Cymru.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 74.2% o'r gyllideb addysg sydd ar gael i ysgolion. Er bod y lefel hon o ddirprwyo yn dangos un o'r achosion uchaf o gynnydd er 2010-2011, mae'n parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, sef 76.2%. Y cyllidebau dirprwyedig cyfartalog yn Sir y Fflint yw £3,629 fesul disgybl mewn ysgolion cynradd – sef y trydydd isaf yng Nghymru – a £3,974 fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd, sef yr isaf yng Nghymru.

# Crynodeb

**Barn gyffredinol: Digonol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- er 2007, mae perfformiad yn ysgolion Sir y Fflint wedi gwella ar gyfradd debyg i gyfradd Cymru yng nghyfnodau allweddol 1, 2, a 3. Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n ennill y dangosydd pwnc craidd (DPC – y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno) uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn 2010, fe wnaeth perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wella'n gyflymach na chyfradd Cymru gyfan mewn pedwar o'r pum prif ddangosydd;

- nid oes llawer o waharddiadau parhaol; ac

- mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaethau, yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Tîm Troseddau Ieuenctid, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, rhwydwaith 14-19, a chydag awdurdodau eraill cyfagos.

Fodd bynnag:

- mae safonau cyffredinol yn ddigonol. Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 3, mae tri chwarter o ysgolion uwchradd Sir y Fflint ymhell islaw'r cyfartaledd, ac mae traean ohonynt yn y chwarter isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd. Mae gormod o ysgolion wedi bod yn y 25% isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac nid oes digon o ysgolion yn y 25% uchaf;

- yn 2011, gostyngodd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn tri dangosydd;

- yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn ehangach nag y mae ledled Cymru;

- nid yw'r awdurdod lleol yn perfformio yn unol â meincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru o'i gymharu ag awdurdodau tebyg o ran safleoedd prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 1 ac yng nghyfnod allweddol 3. Mae ganddo berfformiad cyfartalog yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r awdurdod wedi bodloni ei feincnodau disgwyliedig neu wedi rhagori arnynt unwaith yn unig yn y tair blynedd diwethaf. Mae hwn yn faes pwysig i'w wella;

- mae ystod o feysydd y mae angen eu gwella yn y sector cynradd, yn cynnwys dirywiad mewn presenoldeb, ymddygiad, ansawdd a safonau, a rheolaeth ariannol;

- mae angen rhyw lefel o weithgarwch dilynol ar ormod o ysgolion ar ôl arolygiadau Estyn, yn cynnwys un ysgol gynradd a gafodd ei rhoi yn y sector gwelliant sylweddol ac ysgol arall yn y categori mesurau arbennig; ac

- nid yw aelodau etholedig wedi gweithio'n foddhaol i ad-drefnu ysgolion uwchradd, lleihau nifer y lleoedd dros ben a defnyddio adnoddau'n well.

**Gallu i wella: Digonol**

Bernir bod rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn ddigonol oherwydd:

- gostyngodd safonau yn 2011 mewn tri dangosydd yng nghyfnod allweddol 4;

- bod cyflymder sicrhau gwelliannau yn aml yn araf;

- nid yw'n glir sut y bydd yr awdurdod yn mynd i'r afael â phob un o'r meysydd i'w gwella y mae'n eu nodi yn ei adroddiad hunanarfarnu; ac

- mae aelodau etholedig wedi bod yn amharod i weithredu'n strategol yn unol ag anghenion a diddordebau plant a phobl ifanc, yn enwedig o ran eu strategaeth moderneiddio ysgolion uwchradd.

Fodd bynnag:

- mae uwch swyddogion wedi rhoi mentrau newydd ar waith yn ddiweddar i wella perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion bregus; ac

- mae'r awdurdod yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda phum awdurdod arall yng nghonsortia rhanbarthol Gogledd Cymru i sefydlu gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Gyngor Sir y Fflint:

A1 wella safonau a pherfformiad i leihau canran yr ysgolion sydd yn y 25% isaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru a lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched;

A2 gwella safon ac ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd trwy:

- fynd i'r afael â thuedd o ddirywiad mewn presenoldeb;
- lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol; a
- lleihau gweddillion a diffygion ysgolion yn unol â chanllawiau cenedlaethol;

A3 gwella'r modd y mae uwch swyddogion a phob aelod etholedig yn gweithio gyda'i gilydd i:

- wella safonau ar gyfer pob dysgwr;
- gwella hunanarfarnu ac adrodd i aelodau; ac
- ad-drefnu ysgolion uwchradd, lleihau nifer y lleoedd dros ben a gwneud defnydd gwell o adnoddau;

A4 lleihau nifer y diwrnodau o addysg y mae dysgwyr yn Sir y Fflint yn eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy ym mhob un o'i hysgolion uwchradd;

A5 gwella'r trefniadau monitro ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i olrhain cynnydd plant a phobl ifanc yn effeithiol; a

A6 blaenoriaethu'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ei hunanarfarniad o wasanaethau addysg.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gweithgarwch dilynol ac y bydd angen ymweliad monitro gan Estyn arno. Bydd Estyn yn penderfynu ar ddyddiad a ffocws yr ymweliad monitro hwn maes o law.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1 astudiaeth achos arfer dda;
2 monitro gan yr arolygydd cyswllt;
3 ymweliad monitro gan Estyn;

4 gwelliant sylweddol; a
5 mesurau arbennig.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio yn sgil ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu bwydo i'r Calendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach â Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Digonol

**Safonau: Digonol**

Er 2007, mae perfformiad yn ysgolion Sir y Fflint wedi gwella ar gyfradd debyg i gyfradd Cymru yng nghyfnodau allweddol 1, 2, a 3. Yn 2011, mae canran y disgyblion sy'n ennill y dangosydd pwnc craidd (DPC) uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Yn 2010, fe wnaeth perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wella'n gyflymach na chyfradd Cymru gyfan mewn pedwar o'r pum prif ddangosydd. Fodd bynnag, yn 2011, dirywiodd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn tri dangosydd. Er bod perfformiad yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru mewn tri dangosydd, nid yw'n cymharu cystal ag y gellid ei ddisgwyl â pherfformiad awdurdodau eraill ledled Cymru yn y ddau arall.

Pan gaiff ysgolion cynradd yn Sir y Fflint eu cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn 2011 ychydig islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 1 a dim ond yn gyfartalog yng nghyfnod allweddol 2.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad ymhell islaw'r cyfartaledd. Mae tri chwarter o ysgolion uwchradd Sir y Fflint islaw'r cyfartaledd ac mae traean ohonynt yn y chwarter isaf ar gyfer eu perfformiad, o'u cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru yn ôl data meincnod prydau ysgol am ddim. Mae gormod o ysgolion wedi bod yn y 25% isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dim digon o ysgolion yn y 25% uchaf.

Yn 2011, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ymhell islaw'r cyfartaledd yn ôl y sgôr pwyntiau ehangach (sy'n cynnwys yr holl gymwysterau cymeradwy yn 16 oed), gydag ychydig dros 40% o ysgolion uwchradd yn y chwarter isaf a 66% yn perfformio islaw'r cyfartaledd. Yr un darlun a gafwyd am y tair blynedd diwethaf. Nid oedd perfformiad yn erbyn trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg, Cymraeg a Mathemateg cystal ag yr oedd yn 2010. Roedd llai o ysgolion yn y ddau chwartel uchaf, ond bu cynnydd o 25 pwynt canran yng nghanran yr ysgolion yn y chwartel isaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau ar gyfer perfformiad ar sail hawl i brydau ysgol am ddim. Dim ond un o naw o'r meincnodau disgwyliedig hyn y mae Sir y Fflint wedi'u bodloni am y tair blynedd diwethaf.

Mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda ar gyfer pob pwnc ac eithrio Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3.

Bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr 16 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NACH) a'r canran sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn 2010, ac maent ymhlith y gorau yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2010, nid oedd canran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig cystal ag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2010, roedd cynnydd yn nifer y

dysgwyr yn Sir y Fflint sy'n ennill cymwysterau medrau allweddol, yn enwedig yn y sector ôl-16.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae'r bwlch ym mherfformiad bechgyn a merched yn ehangach na'r bwlch ledled gweddill Cymru. Y rheswm am hyn yw bod merched yn Sir y Fflint yn perfformio'n well o'u cymharu â merched ledled Cymru na bechgyn yn Sir y Fflint o'u cymharu â bechgyn ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch yn union yr un fath â'r bwlch yng Nghymru gyfan.

Yn 2010 yng nghyfnod allweddol 4, roedd y bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn yn llai na'r bwlch cyfartalog ledled Cymru ym mhob un o'r pum prif ddangosydd. Y rheswm am hyn yw bod perfformiad bechgyn yn cymharu'n well na pherfformiad bechgyn yn genedlaethol nag ar gyfer merched o'u cymharu â merched ledled Cymru.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill yn fwy nag y mae ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda. Yn 2009-2010, fe wnaeth 15 o 16 (94%) o'r plant y gofelir amdanynt adael addysg orfodol heb gymhwyster ffurfiol. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 74%.

Nid oes gan yr awdurdod brawf darllen safonol cytûn ar draws ei ysgolion i ddadansoddi safonau darllen. O ganlyniad, nid yw'n dadansoddi safonau mewn llythrennedd yn ddigon da.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mewn Cymraeg ail iaith, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r dysgwyr hynny a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau yn cyflawni'n dda. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn dda er ei fod islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2.

Er bod enghreifftiau o bobl ifanc yn cyflawni mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, nid yw'r awdurdod yn dadansoddi data ar gyflawniadau pobl ifanc mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion yn ddigon da. O ganlyniad, ni all yr awdurdod arfarnu'r safonau a gyflawnir gan y bobl ifanc hyn.

**Lles: Digonol**

Mae safonau lles yn ddigonol ar y cyfan. Mae gan yr awdurdod ystod dda o fentrau a strategaethau sy'n annog dysgwyr i gymryd rhan mewn dysgu a'i fwynhau.

Mae presenoldeb yn dda mewn ysgolion uwchradd. Mae cyfraddau wedi parhau yn uchel dros y tair blynedd diwethaf a nhw yw'r uchaf yng Nghymru. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd uwchlaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r duedd dros y tair blynedd diwethaf yn dangos gostyngiad.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o grwpiau bregus yn cymryd rhan yn dda mewn dysgu. Mae'r holl ddisgyblion oedran cynradd sy'n Sipsiwn a Theithwyr yn mynychu ysgol gynradd. Mae cyfraddau presenoldeb yn dda ar gyfer disgyblion o oedran uwchradd.

Prin yw'r gwaharddiadau parhaol o'r rhan fwyaf o ysgolion yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae gan nifer fach iawn o ysgolion cynradd ormod o waharddiadau cyfnod penodol, ac mewn ysgolion uwchradd, mae gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r awdurdod yn cydnabod nad yw'n cefnogi rhai disgyblion yn ddigon cyflym. Mae'r dysgwyr hyn yn colli gormod o ddiwrnodau ysgol. I helpu gwella hyn, mae'r awdurdod wedi cyflwyno protocol symudiadau rheoledig sy'n helpu dysgwyr i symud yn llwyddiannus i ysgol newydd, yn hytrach na chael eu gwahardd.

Mae pob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Iach lleol. Mae enghreifftiau da o ddisgyblion yn dylanwadu ar gynnwys bwydlenni a'r rhai o grwpiau bregus, fel troseddwyr ifanc, yn dysgu paratoi prydau iach.

Mae cyfranogiad dysgwyr mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 yn dda iawn. Mae ymyriadau targedig wedi'u hanelu at bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn helpu dysgwyr i drosglwyddo'n dda a llwyddiannus yn ôl i addysg. Mae'r cymorth da a gaiff troseddwyr ifanc yn helpu iddynt aros mewn addysg a throsglwyddo'n effeithiol i opsiynau ôl-16, ac mae'n helpu lleihau cyfradd eu haildroseddu.

Er bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn ymgysylltu'n dda â phobl ifanc, nid oes gan wasanaethau cymorth ieuenctid yr awdurdod lleol strategaethau cadarn i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc. Nid yw cynghorau ysgol a'r fforwm ieuenctid yn cael llawer o effaith ar gynllunio strategol yr awdurdod lleol, ac er gwaethaf ymroddiad y bobl ifanc dan sylw, nid yw'r awdurdod yn eu cynnwys yn ddigon da mewn datblygu ei wasanaethau.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol

### Cymorth ar gyfer gwella ysgolion: Digonol

Mae'r awdurdod yn amlinellu egwyddorion a meini prawf clir ar gyfer ei wasanaeth cymorth gwella ysgolion yn y cytundebau partneriaeth mewn ysgolion cynradd. Mae penaethiaid yn deall y rhain yn dda. Mae swyddogion yn cynnal rhaglen o adolygiadau monitro mewn ysgolion, sy'n dechrau bod yn effeithiol o ran nodi materion sy'n ymwneud â safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw deilliannau'r cytundebau partneriaeth yn nodi ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn ddigon da yn gyson. Hefyd, nid yw'r awdurdod yn defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael iddo yn ddigon da, ac o ganlyniad, nid yw'n gallu gwella ysgolion y mae angen cymorth arnynt yn ddigon cyflym. O ganlyniad, caiff gormod o ysgolion cynradd eu rhoi mewn categorïau dilynol ar ôl arolygiad gan Estyn. Roedd angen cyfnod estynedig ar un ysgol yn y categori mesurau arbennig cyn iddi allu gwneud y cynnydd angenrheidiol. Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod un ysgol gynradd y mae angen ei gwella'n sylweddol ac ysgol arall yn y categori mesurau arbennig.

Mae'r awdurdod yn monitro perfformiad ysgolion yn effeithiol ar y cyfan gyda'i ysgolion uwchradd. Yn gyffredinol, mae swyddogion gwella ysgolion yn darparu adroddiadau defnyddiol yn dilyn adolygiadau monitro. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn nodi'n ddigon clir sut y dylid gwella safonau

cyflawniad neu ansawdd yr addysgu. Mae ansawdd y data a ddarperir ar gyfer ysgolion yn dda ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan swyddogion fel rhan o'r broses herio.

Mae rhai agweddau ar gymorth yr awdurdod ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion cynradd yn effeithiol ar y cyfan. Er enghraifft, mae'r awdurdod yn cefnogi cynllun peilot llythrennedd mewn 19 ysgol a ddewiswyd yn unol â meini prawf clir yn ymwneud â thanberfformio. Mae'r cynllun peilot yn dangos cynnydd mesuradwy clir gan ddisgyblion. Mae gwaith medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd mewn 25 o ysgolion yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da a chyflawni'n agosach at eu hoedran cronolegol. Er nad oes prawf darllen ar gyfer yr awdurdod lleol cyfan, disgwylir i bob ysgol gynnal eu profion eu hunain. Mae swyddogion llythrennedd yn monitro prosesau ysgol unigol ac yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen er mwyn llywio datblygiad disgyblion ar lefel ysgol. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod weithdrefnau digon effeithiol ar gyfer dadansoddi safonau mewn darllen ar draws ei ysgolion.

Mae'r awdurdod yn darparu cymorth da ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ac mae cymorth cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn dda ar y cyfan. Mae'r awdurdod yn darparu cymorth priodol ar gyfer ysgolion i helpu gwella cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1, 2 a 3.

Mae'r awdurdod wedi datblygu model da ar gyfer ei gymunedau dysgu proffesiynol. Mae'n defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o adolygiad diweddar i wella cymorth ar gyfer athrawon a chanolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi arfarnu effaith cymunedau dysgu proffesiynol ar addysgu a dysgu eto.

Mae'r awdurdod yn darparu cyfleoedd hyfforddi da ar gyfer arweinwyr ysgol a darpar arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw'n arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar draws ei ysgolion yn ddigon da. Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol yn y rhan fwyaf o ysgolion i gyflwyno data a deilliannau adolygiadau'r bartneriaeth. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i ymgymryd â'u rolau yn fwy effeithiol ac mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i lywodraethwyr.

### Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol: Da

Mae Sir y Fflint yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dda. Mae'r prosesau i gefnogi ADY yn glir, yn cael eu rheoli'n effeithlon, ac yn cael eu monitro'n effeithiol. Mae gweithdrefnau sy'n cael eu deall yn dda a safoni ceisiadau amlasiantaethol yn drylwyr ar gyfer cymorth ychwanegol yn rhoi ymatebion cyson i ysgolion.

Mae'r awdurdod yn monitro cynnydd disgyblion ag ADY yn effeithiol. Mae hyn wedi arwain at ffocws ar wella cyflawniadau mewn darllen ac ysgrifennu i ddisgyblion ag ADY yn ddiweddar. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi gwella ei system ar gyfer monitro ac arfarnu ystod eang o ddata ar gyflawniadau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n arbrofi â'r system ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae arwyddion cynnar cadarnhaol o'i heffeithiolrwydd fel cyfrwng ar gyfer gwella ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi cynnal adolygiad i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion pob disgybl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, fel cefnogi disgyblion ag anghenion lleferydd ac iaith a'r rhai â nam ar eu clyw mewn ysgolion prif ffrwd clwstwr. Ar hyn o bryd, mae Sir y Fflint yn addysgu 56% o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, ychydig dros hanner o'r disgyblion hyn yn unig sy'n cael cyfleoedd i ddysgu gan eu cyfoedion trwy gael eu haddysg mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae hyn yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 67%.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth o ansawdd da a hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer athrawon. O ganlyniad, mae mwy o ysgolion wedi canfod y gallant ymateb i anghenion llawer o ddisgyblion oddi mewn i adnoddau presennol. Caiff hyn effaith sylweddol ar gyfeiriadau ar gyfer cymorth ychwanegol ac mae wedi lleihau nifer y cyfeiriadau i'r gwasanaeth o 64 yn 2009 i 29 yn 2010. Fodd bynnag, mae nifer y cynorthwywyr addysgu sy'n cefnogi disgyblion ag ADY sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn rhy uchel, ac o ganlyniad, mae'r awdurdod lleol yn gorwario'n gyson ar y gyllideb annirprwyedig ar gyfer darparu'r cymorth ychwanegol hwn.

Mae'r awdurdod yn monitro cynnydd y niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir yn dda. Caiff penderfyniadau am leoliadau eu gwneud ar asesiadau cyfoes o anghenion disgyblion. Mae'r cynnydd mewn cynllunio amlasiantaethol i drefnu darpariaeth yn lleol yn araf. Mae ysgolion arbennig yn rhan annatod o'r ystod o ddarpariaeth a gynigir gan yr awdurdod, ond nid ydynt yn gallu darparu'r gofal cymdeithasol sydd ei angen ar hyn o bryd i fodloni anghenion cymhleth rhai disgyblion.

Mae gan bennaeth y gwasanaeth cymorth ADY ddealltwriaeth glir o sut i wneud gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae'r awdurdod yn adeiladu gallu ysgolion yn effeithiol i fodloni anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Mae gwaith effeithiol gyda phartneriaid yn helpu'r awdurdod i gynllunio ymateb rhanbarthol i fodloni anghenion disgyblion. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda rhieni, fel y mae'r nifer gyson isel o apeliadau i dribiwnlys anghenion addysgol arbennig Cymru (TAAAC) yn dangos. Mae llawlyfrau defnyddiol ar gyfer rhieni/gofalwyr yn darparu cyngor a chyfarwyddyd am gymorth ac arweiniad pellach.

### Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Da

Mae cynllun lles yr awdurdod yn amlinellu ei flaenoriaethau yn glir. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu'r cynllun yn ddigon trylwyr.

Mae swyddogion lles addysg yn gweithio mewn ysgolion uwchradd. Mae'r trefniadau hyn yn helpu ysgolion uwchradd i gynnal lefelau da o bresenoldeb. Fodd bynnag, nid yw eu gwaith gydag ysgolion cynradd wedi atal cynnydd yn absenoliaeth disgyblion yn y tair blynedd diwethaf.

At ei gilydd, mae ystod dda o ddarpariaeth sy'n rhoi cymorth da i bron pob dysgwr y mae angen cymorth ymddygiadol arno. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol hwy o chwe diwrnod neu fwy yn ddigon cyflym. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw'r awdurdod wedi rhoi cymorth ymddygiad yn ddigon cyflym i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd.

At ei gilydd, mae'r awdurdod yn gofalu am grwpiau bregus yn dda. Mae'n gweithio'n dda i helpu troseddwyr ifanc i aros mewn addysg a lleihau eu cyfraddau troseddu. Mae'r gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn cefnogi dysgwyr yn dda ac yn helpu athrawon i ddatblygu strategaethau defnyddiol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth effeithiol i ddysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr, sydd wedi helpu iddynt wella eu lefelau llythrennedd a sicrhau presenoldeb gwell. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth effeithiol, unigol i blant sy'n cael gofal, sy'n helpu iddynt wneud cynnydd mewn addysg. Fodd bynnag, nid yw rhianta corfforaethol yr awdurdod wedi bod yn ddigon effeithiol i sicrhau ei fod wedi bodloni'r holl dargedau yn ymwneud â phlant sy'n cael gofal, yn cynnwys llunio Cynlluniau Addysg Personol ymhen pythefnos.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi ymgorffori ei fenter i herio bwlio mewn ysgolion yn ddigon cyflym. Nid yw wedi monitro ei heffaith yn strategol eto ychwaith.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) yn ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid. Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill fel Gyrfa Cymru i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae hyn wedi helpu sicrhau cyfraddau cyfranogiad uchel iawn mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Er 2009, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da i wella'r systemau cyfeirio a monitro ar gyfer hyfforddiant ar ddiogelu. Mae polisi diogelu clir. Adeg yr arolygiad, roedd systemau ac arweiniad effeithiol ar waith i ddarparu gwiriadau'r SCT a chynnig hyfforddiant priodol a chynhwysfawr mewn diogelu ac amddiffyn plant i'r holl staff addysg.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Ers arolygiad diwethaf Estyn yn 2009, mae'r awdurdod wedi dechrau cyflwyno ei Strategaeth Moderneiddio Ysgolion trwy raglen o uno ysgolion babanod ac ysgolion iau a gostwng nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud defnydd effeithiol o'r adolygiad o gyllid fformwla i lywio'r broses moderneiddio ysgolion. Mae data Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010 yn dangos bod canran y lleoedd dros ben yn ysgolion Sir y Fflint islaw cyfartaledd Cymru, er bod canran uwch o leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd nag yn 2009.

Ni wnaeth aelodau etholedig gefnogi cynllun i gau ysgol leiaf yr awdurdod sydd â llai nag 20 o ddisgyblion. Yn ychwanegol, dywed penaethiaid na chafodd ysgolion eu cynnwys yn dda mewn gwerthuso'r dewisiadau na'u cynnwys yn ddigon cynnar mewn datblygu'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod wedi atal ei raglen ar gyfer moderneiddio ysgolion uwchradd oherwydd diffyg cefnogaeth wleidyddol gan aelodau i'w strategaeth.

Mae'r awdurdod yn cydlynu trefniadau derbyn yn effeithiol. Mae'r systemau ar gyfer rhagweld niferoedd y disgyblion, a'r gofynion ar gyfer lleoedd, yn effeithiol ar y cyfan. Mae'r awdurdod yn rhoi gwybodaeth glir ac eglur am y gweithdrefnau derbyn i rieni. Mae'r fforwm derbyniadau yn effeithiol ac yn bodloni bron pob un o ddewisiadau rhieni. Ymdrinnir ag apeliadau yn briodol.

Mae swyddogion yn adolygu ansawdd a digonolrwydd darpariaeth y blynyddoedd cynnar a chwarae yn effeithiol. At ei gilydd, mae'n bodloni anghenion plant a'u teuluoedd. Mae gan yr awdurdod weithdrefnau da ar waith i fonitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae'r awdurdod yn cynllunio'r ffordd y caiff asedau eu rheoli yn dda, ac mae'r wybodaeth am gyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd adeiladau ysgol yn gywir ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Caiff cyllidebau eu gweddu'n agos i ble mae'r angen mwyaf. Mae'r gwaith a wneir yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i bobl ifanc sy'n galluogi iddynt gael eu hawliau. Mae gweithio mewn partneriaeth yn datblygu'n dda i gynnig ystod eang o weithgareddau dysgu nad ydynt yn ffurfiol a rhai anffurfiol. Fodd bynnag, er bod yr awdurdod wedi buddsoddi mewn adnoddau i wella'r ffordd y caiff deilliannau pobl ifanc eu monitro ac effaith y gwasanaeth, nid yw'n gwybod yn ddigon da a yw pobl ifanc yn cael y cymorth cywir yn ogystal â chyfle i ddilyn cymwysterau priodol.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Digonol

### Arweinyddiaeth: Digonol

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol.

Mae gan yr awdurdod ystod o gynlluniau sy'n amlinellu'r rhan fwyaf o'i weledigaeth a'i flaenoriaethau yn glir. Mae cysylltiadau da rhwng blaenoriaethau gwahanol gynlluniau ar bob lefel. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau lefel uchel yn rhoi ffocws digon craff ar ddeilliannau i bob dysgwr. Er enghraifft, nid ydynt yn cyflwyno targedau perfformiad sy'n ymwneud â chyrhaeddiad academaidd yn y cyfnodau allweddol amrywiol.

Mae'r awdurdod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru o'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'r cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae swyddogion yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid, yn cynnwys ysgolion, i ddatblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent wedi rhoi camau ar waith yn ddiweddar i wella'r modd y mae ysgolion yn cefnogi disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim i wella eu deilliannau.

Mae uwch swyddogion wedi gwella'r wybodaeth y maent yn ei darparu ar gyfer aelodau etholedig ers yr arolygiad diwethaf. Mae uwch swyddogion etholedig yn gweithio gyda swyddogion i fonitro perfformiad yr awdurdod ac ysgolion unigol yn foddhaol. Fodd bynnag, nid yw uwch aelodau etholedig yn deall graddau'r angen i wella safonau ar gyfer pob dysgwr yn ddigon da.

Sicrhaodd uwch swyddogion fod uwch aelodau etholedig yn cytuno â strategaeth yr awdurdod ar gyfer moderneiddio ysgolion. Fodd bynnag, ni lwyddodd uwch aelodau etholedig i gael cefnogaeth yr holl aelodau etholedig eraill a'r cyhoedd i roi'r strategaeth ar waith. Yn ychwanegol, ni wnaeth aelodau etholedig weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddefnyddio dull strategol o wella'r ddarpariaeth ar draws y sir a hyrwyddo anghenion plant a phobl ifanc. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod wedi gallu

gwneud cynnydd mewn ad-drefnu ysgolion uwchradd i leihau nifer y lleoedd dros ben, na gwneud defnydd gwell o'i adnoddau er lles dysgwyr.

Nid yw'r awdurdod bob amser yn gweithredu'n ddigon cyflym i wella gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae wedi bod yn araf yn adolygu ei fformwla ariannu ar gyfer ysgolion ac nid yw wedi cynnwys yr adolygiad hwn mewn trafodaethau ar foderneiddio ysgolion. Mae hyn yn atal yr awdurdod rhag gwireddu gweledigaeth ynglŷn ag ystod ac ansawdd ei ysgolion ar gyfer y dyfodol yn llawn.

### Gwella ansawdd: Digonol

Mae proses hunanarfarnu'r awdurdod yn ddigonol. Mae llawer o'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol ac yn defnyddio ystod o dystiolaeth, yn cynnwys data priodol. Fodd bynnag, ni wnaeth yr awdurdod gynnwys rhanddeiliaid ac asiantaethau eraill na phobl ifanc yn ddigon da wrth lunio barnau am ansawdd a safonau. Mewn rhai meysydd, nid yw'r awdurdod yn cefnogi ei farnau yn ddigon da gyda thystiolaeth ddibynadwy.

Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd priodol o'r adroddiad hunanarfarnu i gynllunio gwelliannau. Mae wedi llunio cynlluniau gwella ysgolion cynradd ac uwchradd, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r awdurdod yn bwriadu ymestyn y dull hwn i'w strategaeth gynhwysiant newydd, ond mae'n rhy gynnar i farnu pa mor effeithiol fydd hyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd yr awdurdod yn blaenoriaethu gweddill y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu.

Mae'r PPPhI wedi rhoi cynllun partneriaeth newydd ar waith yn ddiweddar, sy'n amlinellu ystod glir o flaenoriaethau a meini prawf llwyddo. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn disgrifio'r modd y bydd y bartneriaeth yn casglu a dadansoddi gwybodaeth o bob asiantaeth i fesur perfformiad yn ddigon da.

At ei gilydd, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn gyffredinol wedi bod yn rhy araf i weithredu yn unol ag adolygiadau y mae wedi'u cynnal, fel adolygiad o'r gwasanaeth ieuenctid.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r awdurdod wedi rhoi trefniadau partneriaeth da ar waith i gyflwyno ei wasanaethau addysg. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r bwrdd iechyd, y system cyfiawnder ieuenctid, grwpiau diogelwch cymunedol, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP), y rhwydwaith 14-19 a'r trydydd sector.

Mae'r PPPhI yn gweithio'n dda i ddarparu ystod dda o gyfleoedd dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gan aelodau ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau a'r modd y maent yn cyfrannu at flaenoriaethau'r bartneriaeth. Mae lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithrediad o fewn y bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn adolygu'r modd y mae'n ariannu prosiectau yn rheolaidd, ac yn digomisiynu prosiectau yn briodol i wneud yn siŵr ei bod yn dyrannu adnoddau i ble mae eu hangen fwyaf.

Mae Strategaeth Gymunedol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint yn darparu gweledigaeth glir a phum maes blaenoriaeth. Mae hyn yn helpu ffurfio cynllunio'r awdurdod at y dyfodol. Mae'r cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer y tair blynedd nesaf yn cynnwys cysylltiadau clir â'r meysydd blaenoriaeth hyn a chynlluniau strategol eraill. Fodd bynnag, nid yw'r PPPhI wedi rhoi deilliannau clir a mesuradwy ar waith i helpu grŵp rheoli'r PPPhI i fonitro cynnydd plant a phobl ifanc ar lefel strategol a gweithredol. Mae diffyg mesurau deilliannau priodol hefyd yn golygu na all partneriaid weld effaith eu cyfraniadau tuag at gyflawni'r blaenoriaethau yn y cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod y diffyg hwn yn ei adroddiad hunanarfarnu yn faes i'w ddatblygu.

Mae partneriaid a rhanddeiliaid yn dangos ymrwymiad cryf i weithio gyda'i gilydd yn y rhwydwaith dysgu 14-19. Mae ysgolion a'r coleg addysg bellach lleol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth i gynllunio a chyflwyno ystod eang o weithgareddau dysgu ar gyfer pobl ifanc. Mae'r Ganolfan Craidd Dysgu 14-19 wedi bod yn effeithiol iawn yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth. Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid, darpariaeth y blynyddoedd cynnar a chwarae yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith y rhwydwaith PPPhI.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag awdurdodau cyfagos i gyflwyno rhai gwasanaethau, yn cynnwys hyfforddi llywodraethwyr, cymorth cwricwlwm ac addysg yn yr awyr agored. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio'n dda gyda'r pum awdurdod arall yng ngogledd Cymru i sefydlu consortiwm rhanbarthol i gyflwyno gwasanaeth effeithiolrwydd ysgolion. Mae'r partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu cynllun busnes i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ledled gogledd Cymru.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r rheolaeth ariannol yn ddigonol ar y cyfan. Mae gwariant yr awdurdod ar ysgolion o fewn ei gyllideb addysg yn agos at gyfartaledd Cymru, er bod cyfanswm cyllideb addysg yr awdurdod islaw cyfartaledd Cymru. Mae aelodau yn cymryd rhan yn y broses ar gyfer gosod cyllideb ac yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd.

Yn gyffredinol, roedd gwariant yr awdurdod islaw ei gyllideb yn 2010-2011. Fodd bynnag, gorwariwyd y gyllideb Dysgu Gydol Oes. Cost lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd i'w chyfrif yn rhannol am hyn. Yr awdurdod sydd â'r niferoedd uchaf ond un o ddisgyblion wedi'u lleoli y tu allan i'r sir yng Nghymru. Er ei fod wedi gwella'r trefniadau hyn, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar gyllidebau.
Nid yw dull yr awdurdod o ddelio â gweddillion a diffygion ysgolion yn cael ei gydlynu'n dda nac yn ddigon trylwyr. Mae cyfanswm y gweddillion a ddelir gan ysgolion wedi cynyddu rhyw draean rhwng 2009 a 2010. Ar ddiwedd Mawrth 2011, roedd cronfeydd wrth gefn ychydig dros draean o ysgolion Sir y Fflint rhwng 5% a 10%, ac roedd gan bron i un o bob deg ysgol gronfeydd wrth gefn dros 10%. Mae gan un deg tri y cant o ysgolion ddiffygion yn eu cyllidebau. Nid oes digon o her neu ni chaiff ysgolion sydd â gweddillion neu ddiffygion mawr mewn blwyddyn eu dwyn i gyfrif yn amserol.

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen gwella targedu ei gyllideb yn unol â'i flaenoriaethau. Mae'n mireinio hyn trwy gynllun ariannol tymor canolig newydd. Mae

meysydd gwasanaeth mewn addysg yn dechrau ystyried y modd y maent yn darparu adnoddau ar gyfer eu cynlluniau a'u gweithgareddau.

Mae rhaglen arbedion yr awdurdod yn cynnwys sawl prosiect addysg. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu cynllunio y mae'r rhain. Mae'r ffordd y caiff gwaith cyfalaf ei reoli wedi gwella yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae monitro ariannol yn digwydd yn rheolaidd yn awr.

Mae'r cyngor yn parhau i wella ei ddata gweithlu i wneud yn siŵr bod ganddo wybodaeth gywir am staff mewn swyddi. Fodd bynnag, nid yw cynllunio'r gweithlu wedi'i ddatblygu digon, ac felly, nid yw'n cyfrannu at gynlluniau datblygu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu nad oes gan y gwasanaeth ddealltwriaeth glir o'r medrau a'r gallu sydd ganddo, neu y gallai fod ei angen arno yn y dyfodol.

Caiff ysgolion ystod o wasanaethau gan yr awdurdod. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd lle mae'r awdurdod wedi arfarnu'r effaith a gaiff y gwasanaethau hyn i blant a phobl ifanc yn gyfyngedig. Nid oes gan yr awdurdod systemau effeithiol ar waith i lunio barnau ynghylch a yw mentrau a gwasanaethau yn cynnig gwerth da am arian. Mae hyn yn atal cynnydd wrth gynllunio arbedion effeithlonrwydd.

Mae gwerth cyffredinol am arian y gwasanaethau addysg yn ddigonol.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Susan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Clive Phillips | Arolygydd Tîm |
| Karen Lees | Arolygydd (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| Arwyn Thomas | Arolygydd Cymheiriaid (ALI Ceredigion) |
| Robert Gifford | Arolygydd (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| Elwyn Davies | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)